

Yn y Rhifyn hwn:

- Cardiau Damwain • Gyrru'n Flinedig • Tri Deg Mlynedd o Wregysau Diogelwch
- Rheolau Newydd i Feicwyr Modur • Goreuon Dosbarth Euro NCAP
- Cwrs Cenedlaethol Ymwybyddiaeth o Gyflymder • BUSK yn Cynnig Cynllun Newydd
- Y Llywodraeth yn Dadlennu Cost Yfed a Gyrru
- Adroddiad Statws Byd-eang ar Ddiogelwch ar y Ffyrdd • Gweithrediad Spectacles

Cardiau Damwain



Caiff beicwyr modur yng Nghymru eu hannog i gario Cardiau Damwain. Maent yn rhad ac am ddim ac arnynt bydd gwybodaeth a allai arbed bywyd os bydd damwain.

Lansiwyd y Cardiau Damwain gan Ddiogelwch y Ffyrdd Cymru a gellir eu cael gan ddelwyr beiciau modur a thimau diogelwch ar y ffyrdd ledled Cymru. Arnynt mae gofod i gofnodi gwybodaeth a allai fod yn hollbwysig i barafeddygon, gan gynnwys eich hanes meddygol a manylion unrhyw feddyginiaeth yr ydych chi wrthi'n ei chymryd. Mae gofod yno hefyd i roi enw a rhif cysylltu eich perthynas agosaf.

Crëwyd y cardiau gan glwb cenedlaethol, sef yr Ambulance Motorcycle Club (yr AMC), a chânt eu defnyddio'n barod mewn rhannau o Gymru ac amryw o ardaloedd yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Mae timau diogelwch ar y ffyrdd wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â phroffesiynolion eraill sy'n gweithio i Ddiogelwch Ffyrdd Cymru, ac mae'r cynllun wedi'i gefnogi gan Ymddiriedolaeth Ambiwlans GIG Cymru. Y gobaith yw i'r cardiau fod ar gael ledled Cymru maes o law.

Meddai Dr Paul Hughes, cyfarwyddwr meddygol Gwasanaeth Ambiwlans Cymru: "Bydd y cardiau damwain yn rhoi gwybodaeth glinigol hanfodol i'n staff er mwyn gwella'r gofal rydyn ni'n gallu ei roi i feicwyr modur ar draws Cymru. Mae'n bwysig cofio mai tasg arbenigol yw tynnu helmed beiciwr modur ar ôl damwain ac mai dim ond criw ambiwlans neu rywun sydd wedi'i hyfforddi ddylai wneud hynny.

"Gallai cario rhywbeth mor syml â cherdyn damwain ein galluogi ni fel gwasanaeth i wneud penderfyniadau mwy deallus ynglŷn â'r driniaeth sydd ei hangen adeg gwrthdrawiad neu ddamwain beic modur."

Meddai Susan Storch, cadeirydd Diogelwch Ffyrdd Cymru: "Mae Diogelwch Ffyrdd Cymru'n falch o ymwneud â chynllun y Cardiau Damwain ac edrychwn ymlaen at y dydd pan fydd gan bob beiciwr modur yng Nghymru un o'r cardiau hyn yn ei helmed. Gallai rhywbeth mor rhywydd â chodi cerdyn a'i lenwi wneud gwahaniaeth go-iawn i rywun sydd wedi'i anafu, a gobeithio y bydd y gymuned o feicwyr modur yn manteisio i'r eithaf ar y cynllun hwn.

Gyrru'n Flinedig



**Driving for
Better Business**

Mae'r amcangyfrifon yn awgrymu y caiff rhyw 300 o bobl yn y DU eu lladd bob blwyddyn am fod gyrrwyr yn mynd i gysgu wrth y llyw.

Mewn rhyw 4 o bob 10 gwrthdrawiad y mae blinder yn ffactor ynddo, cerbyd masnachol sy'n cael ei yrru. Dangosodd dadansoddiad diweddar o'r data am anafiadau ar ffyrdd y DU fod cysgu'n elfen mewn 17% o'r damweiniau a arweiniodd at anaf neu farwolaeth ar y priffyrdd.

Mae arweiniad RoadSafe ynghylch rheoli'r risg honno [ar gael yma](#).

Mae detholiad o hysbysebion THINK! hanesyddol wedi'u rhoi ar-lein i ddathlu 30 mlynedd o'r gyfraith ynghylch gwregysau diogelwch.

Nodir tri degawd o orfod defnyddio gwregysau diogelwch drwy i'r llywodraeth drefnu i ddetholiad o'r hysbysebion THINK! hanesyddol fod ar gael ar-lein. Daeth y gyfraith sy'n mynnu bod pob gyrrwr yn gwisgo gwregys diogelwch i rym 30 mlynedd yn ôl – ar 31 Ionawr 1983.



Er bod cynhyrchwyr ceir wedi gorfod gosod gwregysau diogelwch oddi ar 1965, bu'n rhaid aros am 18 mlynedd cyn cael cyfraith i fynnu bod gyrrwyr yn eu gwisgo. Ym 1991 newidiwyd y gyfraith unwaith eto i'w gwneud hi'n ofynnol i oedolion wisgo gwregysau diogelwch wrth deithio ar seddau cefn ceir.

Meddai'r Gweinidog dros Ddiogelwch ar y Ffyrdd, Stephen Hammond:

"Mae miloedd o fywydau wedi'u harbed ac anafiadau di-ri' wedi'u rhwystro dros y blynyddoedd am fod gyrrwyr a theithwyr yn gwisgo gwregysau diogelwch.

Dri deg mlynedd yn ddiweddarach ac oherwydd y cyfuniad o orfodaeth effeithiol ac ymgyrchoedd cyhoeddus diarbed, bydd y mwyafrif llethol o yrwyr a theithwyr yn rhoi eu gwregysau diogelwch amdanynt cyn cychwyn ar daith.

Ond y ffaith anghredadwy amdani yw bod rhai pobl yn dal i beidio â gwisgo'u gwregys diogelwch. Mae gen i neges syml iddyn nhw: gallai gwregys diogelwch arbed eich bywyd a dydy hi ddim yn werth i chi fentro peidio â'i wisgo.

Drwy ei hymgyrch PWYLLWCH! / THINK! mae'r llywodraeth yn hybu gyrru mwy gofalus i geisio gostwng nifer y bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol mewn damweiniau ar y ffyrdd. Ceisiant, felly, roi cyngor diogelwch clir a safonol i bawb sy'n defnyddio'r ffyrdd. Ar [wefan THINK!](#) fe welwch chi ddetholiad o hysbysebion ymgyrchoedd blaenorol i hybu defnyddio gwregysau diogelwch.

Rheolau Newydd i Feicwyr Modur

Mae rheolau newydd wedi'u cyflwyno ynghylch beicwyr modur ym Mhrydain.

Mae isafswm yr oedran i farchogaeth beiciau modur mawr yn codi a chaiff defnyddio beiciau modur mwy pwerus ei ganiatáu fesul cam ar sail cymhwysedd, oedran a phrofiad. Cyflwynir y gofynion Ewropeaidd ym Mhrydain fel rhan o'r newidiadau o dan drydedd gyfarwyddeb drwyddedu yr UE.

Os nad oes gennych chi'r profiad perthnasol, mae isafswm yr oedran i farchogaeth y beiciau modur mwyaf yn codi o 21 i 24. [Gallwch chi wyllo fideo am y rheolau newydd yma.](#)



Ceir Gorau eu Dosbarth yn Euro NCAP 2012



Mae Euro NCAP wedi cyhoeddi dewisiadau gorau 2012 o ran diogelwch ac o ran y cerbydau y maent yn eu hargymhell yn eu dosbarth.

Yn 2012, cyhoeddodd Euro NCAP ganlyniadau 36 o gerbydau sydd ar gael ar y farchnad Ewropeaidd. Gwnaeth wyth cerbyd pum-seren yn dda ym mhob un o'r pedwar maen prawf unigol, sef diogelu oedolion ynddynt, diogelu plant ynddynt, diogelu cerddwyr a systemau cynorthwyo diogelwch.

[Cewch chi wybodaeth yma am oreuon eu dosbarth yn 2012. Fe'u hargymhellir oherwydd eu perfformiad nodedig o ran diogelwch.](#)

Mae ymchwil gan [Brainbox Research Cyf](#) (ar ran ACPO) yn ddiweddar yn cynnig tystiolaeth hollbwysig o effeithiolrwydd y Cyrsiau Ymwybyddiaeth o Gyflymdra yn y tymor hwy.



Mae'r ymchwil yn cyflwyno tystiolaeth bod y Cwrs Cenedlaethol ar Ymwybyddiaeth o Gyflymdra yn esgor ar newidiadau cadarnhaol yn agweddau gyrwyr wrth iddynt sylweddoli bod llai o fanteision a mwy o anffanteision i oryrru. Gan fod y cwrs yn ei gwneud hi'n haws i gleientiaid weld y terfynau ar gyflymdra yn yr ardal y maent yn teithio ynddi, bydd yn cynyddu bwriad gyrwyr i yrru o fewn y terfyn cyflymdra yn y dyfodol.

Dangosodd ymchwil flaenorol ar gyfer yr Adran Drafnidiaeth (Stephenson ac eraill, 2010) na welwyd y cynnydd hwnnw ymhlith y cleientiaid na chawsant gynnig gwrs. Arwydd bod y cyrsiau'n dal i sicrhau diogelwch y cleientiaid yw na welir y newidiadau hynny'n dirywio'n ddiweddarach.

[Darllenwch yr adroddiad llawn yma](#)

BUSK yn cynnig Cynllun Newydd

Mae'r grŵp o Went wedi lansio cynllun newydd i osod sêr am ddiogelwch ar fysiau moethus a bysiau mini – am y tro cyntaf yn y DU.

Cynllun newydd ac unigryw gan BUSK yw Benchmark ac mae'n fodd i gwmnïau arddangos ar eu cerbydau y sêr gwyrd y maent wedi'u cael i brofi eu bod yn cydymffurfio â safonau diogelwch.

Sefydlodd Pat Harris y grŵp diogelwch bysiau, BUSK, yng Nghasnewydd 20 mlynedd yn ôl. Er mai carfan bwysu oedd y grŵp yn wreiddiol, cynhaliodd ef ymgyrch genedlaethol amlwg a arweiniodd at basio deddfwriaeth ynghylch gwregysau diogelwch a'i gwneud hi'n ofyniad cyfreithiol i bob bws moethus a bws mini yn y DU fod â gwregysau diogelwch wedi'u gosod ynddo cyn iddo gael cludo plant.

Bydd y cynllun newydd yn dyfarnu sêr i weithredwyr ar sail pa mor ddiogel yw eu bysiau. Mae dros 50 o gwmnïau ledled y wlad eisoes wedi ymuno, gan gynnwys cwmni bysiau Peakes, Pont-y-pŵl.

Barn Mrs Harris yw ei fod yn fodd i gwmnïau sy'n cludo teithwyr brofi eu bod yn ymboeni am ddiogelwch a hefyd yn dangos pa gwmnïau sy'n ailfuddsoddi yn eu fflyd ac yn eu cynnal a'u cadw'n ddiogel.

Meddai: "Mae'n bryd i rieni godi'u llais a mynnu bod ysgol eu plant yn llogi ar sail diogelwch, nid cost yn unig, a'u bod hefyd yn barod i dalu punt yn rhagor am y daith."

Meddai Mrs Harris ymhellach: "Bydd BUSK yn gwirio cwmni cyn eu derbyn i gynllun Benchmark ac yn eu plismona tra dalian nhw i fod yn aelod.

"Bydd hynny'n rhoi sicrwydd i rieni fod eu plentyn mewn dwylo diogel wrth deithio gyda chwmni sy'n aelod o Benchmark. Gan mai diogelwch yw'r peth pwysicaf oll, does gan raddiad sêr Benchmark ddim byd oll i'w wneud â moethusrwydd."

"Rhaid bob amser herio defnyddio bysiau moethus rhad am nad yw hynny ond yn bosibl fel rheol pan fydd y cwmni sy'n ei gynnig wedi syrthio o dan lefel dderbyniol o ddiogelwch ac yn anwybyddu'r rheoliadau."

"Fy her i unrhyw weithredwr sy'n cynnig llogi bysiau moethus yn rhad yw profi fy mod i'n camgymryd."

I gael gwybod rhagor, ewch i: www.busk-uk.com





Mae peint o gwrw sy'n costio £50,000, ac yn tynnu'ch sylw at gost i chi o'ch cael yn euog o yfed a gyrru, wedi'i ddadlennu fel rhan o ymgyrch ddiweddaraf PWYLLWCH! Llywodraeth y DU i hybu diogelwch ar y ffyrdd.

Yn ôl yr Institute of Advanced Motorists (yr IAM), cost bersonol yfed-a-gyrru am y tro cyntaf yw £20,000-£50,000, swm sy'n cynnwys y dirwyon, y costau cyfreithiol, y codiad mewn premiymau yswiriant a'r posibilrwydd o golli'ch swydd os caiff llys chi'n euog.

Dadlennwyd y peint drud, yr un allai fynd â gyrrwr dros y terfyn, gan y gweinidog diogelwch ar y ffyrdd, Stephen Hammond. Mae'n rhan o ymgyrch newydd PWYLLWCH! y bydd y llywodraeth yn gwario £1.68 miliwn arni. Meddai Mr Hammond: "Er y gallai hwn edrych fel peint digon cyffredin o gwrw, gallai gostio llawer mwy na phunt neu ddwy i chi yn y pen draw. Yn wir, bydd ei gost gudd yn aruthrol os aiff â chi dros y terfyn."

"Er bod y mwyafrif o bobl yn gwybod na ddylen nhw ddim yfed a gyrru, bydd nifer fach yn dal i wneud hynny. Dyna pam rydyn ni'n tynnu sylw at ganlyniadau'ch cael chi'n euog o yfed a gyrru drwy'n hymgyrch THINK!. Ddylai fod gan neb sy'n meddwl yfed a gyrru unrhyw amheuaeth. Os cewch chi'ch dal yn gyrru dros y terfyn byddwch chi'n wynebu cael dirwy drom gan lys a cholli'ch trwydded. Gallech chi hyd yn oed fynd i'r carchar."

Yr elfennau yn amcangyfrif yr IAM o'r gost o £50,000 yw £5,000 o ddirwy, £4,800 mewn ffioedd cyfreithiol, £8,000 am gynnydd mewn premiymau yswiriant, a £33,000 drwy golli cyflog. Meddai Simon Best, prif weithredwr yr IAM: "Mae cyfanswm y gost i chi o'ch cael yn euog o yfed a gyrru yn llawer mwy nag roedden ni'n ei ddisgwyl. Mae £50,000 yn swm dychrynlyd i'w dalu dim ond am gael yfed un ddiod yn rhagor."

"Ar ben y costau uniongyrchol, gall yr effaith tymor-hir ar eich enillion fod yn ddifrifol os cynhwyswch chi'r stigma o fod â record droseddol. Bydd alcohol yn effeithio ar bawb mewn ffordd wahanol a gall nifer fawr o ffactorau effeithio ar eich terfyn chi. Y peth callaf yw yfed dim cyn gyrru."

Yn 2011 cafwyd dros 51,000 o bobl yn euog o yrru ar ôl yfed neu gymryd cyffuriau. Rhybudd y Prif Gwnstabl Suzette Davenport, o Gymdeithas y Prif Swyddogion Heddlu, i'r rhai sy'n yfed a gyrru yw bod yr heddlu'n rhoi prawf anadl i fwy o yrwyr nag erioed.

Meddai: "Mae angen i yrwyr sylweddoli fod sawl ffordd i'r heddlu ddal y rhai sy'n yfed a gyrru. Felly, nid mater o 'os cewch chi'ch dal' yw hi, ond pryd y cewch chi'ch dal."

Lansio Adroddiad Statws Byd-eang 2013 ar Ddiogelwch ar y Ffyrdd

[Adroddiad statws byd-eang 2013 ar ddiogelwch ar y ffyrdd](#) fydd sylfaen y Degawd o Weithredu ar Ddiogelwch ar y Ffyrdd, 2011-2020, a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig.

Mae'r adroddiad yn cyflwyno gwybodaeth am ddiogelwch ar y ffyrdd mewn 182 o wledydd lle mae bron 99% o boblogaeth y byd yn byw. Dangosir bod cyfanswm y marwolaethau oherwydd traffig ar y ffyrdd ledled y byd yn annerbyniol o uchel, yn 1.24 miliwn y flwyddyn, fod y ddeddfwriaeth a'r gorfodi arni'n dal i fod yn annigonol a bod angen amddiffyn cerddwyr a beicwyr yn well.

Dim ond 28 o wledydd, sef 7% o boblogaeth y byd, sydd â chyfreithiau cynhwysfawr ar ddiogelwch ar y ffyrdd ynghylch pum ffactor risg allweddol: yfed a gyrru, goryrru, a methu â defnyddio helmedau beiciau modur, gwregysau diogelwch a seddau diogelwch plant.

Gwnaed llunio'r adroddiad hwnnw'n bosibl drwy gael cyllid gan Bloomberg Philanthropies, a dyma'r ail mewn cyfres o adroddiadau ar statws byd-eang.

[Gallwch chi ei lwytho i lawr yma.](#)

Gweithrediad Spectacles

Mae Heddlu De Cymru wedi dechrau diddymu trwyddedau gyrru modurwyr sy'n anwybyddu cyngor diogelwch ac yn methu prawf golwg yn y fan a'r lle. Mewn cyfres o ymarferion diwrnod – y cyntaf o'u bath yn Ne Cymru – bydd swyddogion plismona'r ffyrdd yn stopio modurwyr i godi ymwybyddiaeth o'u gallu gwell ar ochr y ffordd a allai arwain at fodurwyr yn colli eu trwydded bron ar unwaith.



Estynnir gwahoddiad i yrwyr ddarllen plât cofrestru cerbyd sydd wedi parcio 20 metr i ffwrdd mewn prawf sy'n dynwared y 'safon ofynnol ar gyfer craffter gweledol' a bennir gan y DVLA. Gallai'r rheini sy'n methu'r prawf wynebu'r posibilrwydd o weld diddymu eu trwydded o fewn oriau, ond bydd swyddogion yn edrych yn bennaf ar roi cyngor i fodurwyr.

Mae gwasanaeth yr heddlu a'r DVLA wedi cydweithio i ddigido'r broses o ddiddymu trwyddedau gyrru, gan gyflymu'r broses yn sylweddol.

Bellach mae swyddogion yr heddlu yn defnyddio dyfeisiau llaw i roi gwybod am yrwyr sy'n troseddu, ac mae ymateb e-bost cyflym gan y DVLA yn golygu y gellir diddymu trwydded ar yr un diwrnod y caiff rhywun ei ddal. Fodd bynnag, fydd hyn ond yn digwydd yn yr achosion mwyaf eithafol pan fo'r modurwyr yn risg ddifrifol iddynt eu hunain ac i ddefnyddwyr eraill y ffordd. Rhoddir targed cwblhau o 48 awr i achosion eraill llai difrifol neu cânt eu cyfeirio at drafodyn post nad yw'n un brys.

Mae'r ffordd newydd hon o weithio yn lleihau'r 'ffenestr risg' a gall swyddogion gyflwyno hysbysiad i fodurwyr y byddai'n drosedd arestiadwy i fynd i mewn i'w cerbyd a gyrru i ffwrdd, a thrwy hynny'n eu hatal rhag gwneud hynny.

Tynnwyd sylw at y mater hwn pan gafodd Cassie McCord, 16 oed, ei lladd ym mis Chwefror 2011 gan yrrwr 87 oed a oedd yn gwrthod ildio ei drwydded er ei fod wedi methu prawf golwg yn y fan a'r lle dri diwrnod yn gynharach pan wnaeth yrru i mewn i allanfa gorsaf betrol. Yn ôl yr Adran Drafnidiaeth, dim ond 10% o yrwyr dros 50 oed sy'n cael profion golwg rheolaidd.

Dywedodd yr Uwch Arolygydd Steve Furnham: "Ceir tabŵs cenedlaethol ynghylch yfed a gyrru a defnyddio ffonau symudol wrth yrru. Mae sicrhau bod gyrwyr yn gwisgo'r sbectol neu'r lensys cyffwrdd priodol fel y gallant yrru'n ddiogel yr un mor bwysig.

"Mae unrhyw gerbyd yn nwylo rhywun sydd heb reolaeth lawn yn arf marwol. Ein nod drwy'r gweithrediadau hyn yw codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o bwysigrwydd golwg wrth yrru.

"Nid oes unrhyw foddhad yn dod o atal rhywun rhag gyrru, ond mae'n rhaid i bobl fod yn gyfrifol am eu gweithrediadau. Ni fydd unrhyw betruster os byddant yn peri risg difrifol iddynt eu hunain ac i ddefnyddwyr eraill y ffordd.

"Y gobaith yw y bydd y bygythiad o golli eu trwydded yrru yn y fan a'r lle yn helpu i leihau nifer y bobl sy'n dewis anwybyddu'r problemau gyda'u golwg, neu eu cyfrifoldeb i wisgo sbectol neu lensys cyffwrdd priodol cyn iddynt fynd y tu ôl i'r llyw." Cewch weld adroddiad [itv yma](#)

Cysylltwch â'r Cynullydd

Gweler Diogelwch y Ffyrdd Cymru ar [Facebook](#) a [Twitter](#)

Cynullydd: Michelle Harrington, RoSPA mharrington@rospa.com

02920 250 600

Nid yw RoSPA yn gyfrifol am gynnwys gwefannau allanol.

